



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Bydd
Bosi+if**

Pecyn cymorth

**Feed your
positivi+y**

Toolkit

Cynnwys

Contents

Cefndir Background	3
Cyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc Introducing the Young Person's Guarantee	4
Sut mae cael gafael ar y Warant i Bobl Ifanc How the Young Person's Guarantee can be accessed	6
Pam ydyn ni'n cysylltu â chi Why we are contacting you	6
Sut gallwch chi helpu How you can help	7
Asedau digidol sydd ar gael i chi Digital assets available to you	8
Llwyddiannau'r Warant i Bobl Ifanc Young Person's Guarantee success stories	9
Manylion cyswllt Contact details	10

Cefndir

Dros y tair blynedd diwethaf, mae pobl ifanc wedi wynebu heriau enfawr. Mae eu haddysg wedi cael ei hamharu a'u hyder wedi'i gollu'n llwyr. Mae eu bywydau cymdeithasol wedi cael eu tarfu, ac mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar eu taith mewn bywyd.

Mae'r heriau cymdeithasol, economaidd ac addysgol hyn wedi effeithio ar iechyd emosiynol a meddyliol pobl ifanc.

Mae Cyfrifiad Llais Pobl Ifanc 2022 wedi canfod mai COVID-19 oedd wedi cael yr effaith fwyaf ar iechyd meddwl pobl ifanc a oedd yn chwilio am waith, gyda dros eu hanner nhw (52.6%) yn dweud bod eu hiechyd meddwl wedi cael ei effeithio 'llawer' neu 'lawer iawn', a 42.1% yn dweud bod eu cymhelliant i wneud cais am gyfleoedd wedi cael ei effeithio 'llawer' neu 'lawer iawn'.

Mae'n amlwg bod angen cymorth ychwanegol ar bobl ifanc - ac yn enwedig y rheini sydd â risg o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Background

Over the past three years, young people have found themselves facing huge challenges. Their education has been interrupted and their confidence lost altogether, their social lives disrupted, and the pandemic disproportionately impacted their journey in life.

These social, economic and educational challenges have impacted the emotional and mental health of young people.

The Youth Voice Census 2022 found that for those young people looking for work, COVID-19 had the biggest impact on their mental health with over half (52.6%) stating that their mental health had been impacted 'a lot' or 'a great deal' and 42.1% saying that their motivation to apply for opportunities has been impacted 'a lot' or a 'great deal'.

It's clear young people - and especially those at risk of becoming NEET (not in education, employment or training) need additional support.





Crynodeb o'r Warant i Bobl Ifanc yng Nghymru

Ym mis Tachwedd 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru'r Warant i Bobl Ifanc, sef ymrwymiad y byddai pawb dan 25 oed yn cael cynnig cymorth i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, i ddod o hyd i swydd neu i fod yn hunangyflogedig.

Bydd y Warant i Bobl Ifanc yn cynnig cymorth gyrfa diduedd o safon uchel i bob person ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru, gan eu helpu drwy wahanol gamau ar eu taith a'u cysylltu â chyfleoedd addas.

Gall y cyfleoedd sydd ar gael gynnwys **prentisiaeth, rhaglen hyfforddi, cymorth i ddod o hyd i swydd neu gymorth ar gyfer hunangyflogaeth.**

Introducing the Young Person's Guarantee

In November 2021, the Welsh Government launched the Young Person's Guarantee - a commitment that everyone under the age of 25 would have the offer of support to gain a place in education or training, find a job or become self-employed.

The Young Person's Guarantee will offer every 16-24-year-old in Wales high-quality, impartial career support, helping them throughout different stages of their journey and connecting them to suitable opportunities.

The opportunities available may include **an apprenticeship, a training programme, support to find a job or help for self-employment.**

Sut mae cael gafael ar y Warrant i Bobl Ifanc

Os yw pobl ifanc angen neu eisiau cymorth neu arweiniad diduedd, gallant drafod y Warrant gyda Cymru'n Gweithio.

Yn ogystal â chynghorwyr arbennig sy'n gweithio ar-lein, mae cymorth ar gael ar y stryd fawr hefyd, a thrwy gyfleusterau allgymorth gwell ledled Cymru.

Mae'r platfform Cymru'n Gweithio ar gael hefyd drwy:

- Sgyrsiau ar y we
- Skype
- E-bost
- Gwasanaethau neges destun

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

How the Young Person's Guarantee can be accessed


If young people need or want support or impartial guidance, they can discuss the Guarantee with Working Wales.

As well as dedicated advisors operating online, there is also support available on the high street, and through improved outreach facilities across Wales.

The Working Wales platform can also be accessed via:

- Web chats
- Skype
- Email
- Text services

You can find out more [here](#).





Pam rydyn ni'n cysylltu â chi

Er mwyn sicrhau bod yr holl bobl ifanc a'u rhieni yng Nghymru yn gwybod am y cymorth sydd ar gael iddyn nhw drwy'r Warant i Bobl Ifanc, mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymgyrch farchnata Bydd Bositif. Mae'r ymgyrch yn targedu pobl ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid ar draws sianeli digidol, cyfryngau cymdeithasol organig a rhai am dâl, yn ogystal â drwy ddylanwadwyr cymdeithasol a phartneriaid.

Nod yr ymgyrch yw rhoi sicrwydd i bobl ifanc yng Nghymru bod dyfodol positif o'u blaenau ac y bydd y Warant i Bobl Ifanc yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i'w helpu i gymryd eu camau nesaf.

Fel rhan o'r ymgyrch, rydyn ni wedi creu'r pecyn cymorth newydd hwn sy'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol am y rhaglen, a **banc o asedau digidol y gellir eu rhannu** i chi eu defnyddio, i helpu i ledaenu'r neges ynghylch sut gall pobl ifanc elwa o'r Warant i Bobl Ifanc.

Rydyn ni'n credu bod angen i ni weithio gyda'n gilydd i helpu'r bobl ifanc hynny sydd mewn â risg o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd â risg o aros felly, a byddem **wrth ein bodd yn cael eich cefnogaeth** i'n helpu ni i godi ymwybyddiaeth o'r Warant Pobl Ifanc ymysg pobl ifanc ledled Cymru.

Why we are contacting you

To ensure all young people and parents across Wales know about the support available to them via the Young Person's Guarantee, the Welsh Government is continuing its Feed Your Positivity marketing campaign. The campaign targets young people – and their parents/guardians - across digital channels, paid and organic social media, as well as via social influencers and partners.

The aim of the campaign is to reassure young people in Wales that there is a positive future ahead of them and that the Young Person's Guarantee will provide support and guidance to help them take their next steps.

As part of the campaign, we have created this new toolkit which is packed with useful information about the programme, and a **bank of shareable digital assets** for you to use, to help spread the word of how young people can benefit from the Young Person's Guarantee.

We believe we need to work together to help those young people at risk of becoming or staying NEET and would **love your support** in helping us raise awareness of the Young Person's Guarantee amongst young people across Wales.

Sut gallwch chi helpu

Byddem yn hoffi i chi gymryd rhan yn yr ymgyrch mewn tair ffordd:

- 1. Drwy rannu asedau ein hymgyrch ar eich sianeli.** Gallai hyn gynnwys rhannu asedau ein hymgyrch ar eich sianeli cymdeithasol, rhoi crynodeb o'r Warant i Bobl Ifanc a chyflwyniad i Cymru'n Gweithio ar eich gwefan, neu mewn cylchlythyr, neu wrth i chi sgwrsio â phobl ifanc neu eu rhieni/gwarcheidwaid a'u cyflogwyr.
- 2. Drwy nodi a rhannu astudiaethau achos.** Dylai'r rhain fod yn straeon am unigolion rhwng 16 a 24 oed sydd efallai wedi goresgyn trallod i lwyddo, neu enghreifftiau o bobl ifanc sydd wedi dilyn llwybr anraddodiadol – efallai eu bod yn entrepreneuriaid neu wedi dychwelyd i addysg i ennill cymwysterau newydd yn nes ymlaen mewn bywyd. Byddem wrth ein bodd yn defnyddio'r straeon bywyd go iawn hyn yn ein hymgyrch barhaus.
- 3. Drwy ganfod a rhannu straeon am fudiadau.** Gallai'r rhain fod yn fudiadau sydd naill ai â phobl ifanc yn ganolog iddyn nhw neu sy'n ffynnu ar ôl cyflogi pobl ifanc i dyfu eu busnes.

How you can help

We would like to ask you to engage with the campaign in three ways:

- 1. By sharing our assets on your channels.** This might include sharing our campaign assets on your social channels, providing a summary of the Young Person's Guarantee and introduction to Working Wales on your website, or in a newsletter, or simply in the conversations you have with young people or their parents/guardians and employers.
- 2. By identifying and sharing case studies.** These should be stories of individuals aged between 16 and 24 who may have overcome adversity to succeed, or simply be examples of young people who have taken a non-traditional path – they might be entrepreneurs or have returned to education to gain new qualifications later in life. We'd love to use these real-life stories in our ongoing campaign.
- 3. By identifying and sharing stories of organisations.** These organisations could either have young people at their heart or are thriving having taken on young people to grow their business.



Asedau digidol sydd ar gael i chi

Mae asedau'r ymgyrch yr hoffem i chi eu rhannu i gyd ar gael yma:

- Cyflwyniad byr i'r Warant i Bobl Ifanc a sut i gael gafael arni - **(copi ar y we)**
- Golwg gyffredinol o'r holl gymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno **(taflen ddigidol)**
- Llythyr neu e-bost at rieni a gwarcheidwaid yn amlinellu'r gefnogaeth **(copi)**
- Fideos byr - pob un yn sôn am un o fanteision allweddol estyn allan i Cymru'n Gweithio i gael gafael ar y cymorth Gwarant **(i'w ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol)**
- GIFs yn amlinellu manteision allweddol estyn allan i Cymru'n Gweithio i gael gafael ar y Cymorth Gwarant **(i'w ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol)**
- Fideo byr yn egluro beth yw'r Warant i Bobl Ifanc **(i'w ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol)**

Mae'r asedau i gyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae copi a awgrymir i gyd-fynd ag asedau cyfryngau cymdeithasol ar gael **yma**.

Digital assets available to you

The campaign assets we would like you to share can all be found here:

- A brief introduction to the Young Person's Guarantee and how to access it - **(web copy)**
- An overview of all the available support and how to access it **(digital leaflet)**
- A letter or email for parents and guardians outlining the support **(copy)**
- Short videos - each one talking about a key benefit of reaching out to Working Wales to access the Guarantee support **(for use on social media)**
- GIFs outlining the key benefits of reaching out to Working Wales to access the Guarantee support **(for use on social media)**
- A short video explaining what the Young Person's Guarantee is **(for use on social media)**

All assets are available in English and Welsh.

Suggested copy to accompany social media assets can be found **here**.



Llwyddiannau'r Warant i Bobl Ifanc

Gallwch hefyd ddysgu mwy am bobl ifanc sydd eisoes wedi elwa o'r Warant Pobl Ifanc a chreu dyfodol cadarnhaol iddyn nhw eu hunain gyda chefnogaeth rhaglenni'r Llywodraeth.

Mae rhagor o wybodaeth am Dan, Phoebe, Kirtis, a Cameron ar gael [yma](#).

Young Person's Guarantee success stories

You can also find out more about young people who have already benefited from the Young Person's Guarantee and created a positive future for themselves with the support of government programmes.

Find out more about Dan, Phoebe, Kirtis, and Cameron [here](#).





Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch am Cymru'n Gweithio - Gwarant i Bobl Ifanc neu ewch i www.cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/gwarant-i-bobl-ifanc neu ffoniwch **0800 028 4844**.

Os oes gennych chi ymholiadau ynghylch unrhyw rai o'r asedau amgaeedig cysylltwch â:

Laura Southcombe

Cyfarwyddwr Cyfrif

Golley Slater

02920 238 8621

lsouthcombe@golleyslater.co.uk

ar ran adran Sgiliau, Addysg
Uwch a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru.

Contact details

For more information, search Working Wales - Young Person's Guarantee or visit www.workingwales.gov.wales/how-we-can-help/young-persons-guarantee or call **0800 028 4844**.

For enquiries on any of the enclosed assets contact:

Laura Southcombe

Account Director

Golley Slater

02920 238 8621

lsouthcombe@golleyslater.co.uk

on behalf of the Skills, Higher
Education and Lifelong Learning
department at Welsh Government.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cymru'n Gweithio
Working Wales**



**Gyrfa Cymru
Careers Wales**